**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

—

**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Y Cynghorydd Andrew Morgan OBE
Arweinydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

18fed Tachwedd 2024

Annwyl Gynghorydd Morgan,

## Ymchwiliad i’r bwlch cyflogaeth anabledd

Mae Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol Senedd Cymru yn cynnal ymchwiliad i'r bwlch cyflogaeth sy’n wynebu pobl anabl. Rydym yn archwilio pa gynnydd sydd wedi'i wneud a beth arall y gellid ei wneud i leihau a dileu'r rhwystrau rhag cyflogaeth a wynebir gan bobl anabl. Mae **cylch gorchwyl** yr ymchwiliad ar gael ar wefan y Pwyllgor.

Wrth ystyried rôl awdurdodau lleol fel cyflogwyr mawr, dywedodd Terry Mills, Hyrwyddwr Cyflogaeth Pobl Anabl, mai Cyngor Sir Penfro yw'r unig awdurdod lleol sydd â statws Arweinydd Hyderus o ran Anabledd ar hyn o bryd. Statws arweinydd yw’r statws uchaf a ddyfernir, a chaiff ei ystyried yn nod barcut pwysig o ymrwymiad sefydliad tuag at gyflogeion anabl. Mewn cyferbyniad, clywsom gan Andrea Wayman o Elite Support Employment ac unigolion eraill fod lefelau 1 a 2 y cynllun Hyderus o ran Anabledd yn fwy cyfyngedig ac o bosibl yn llai cadarn.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech roi gwybod i’r Pwyllgor am unrhyw waith neu ddatblygiadau sy’n digwydd ledled Cymru i gefnogi ac annog awdurdodau lleol i wneud mwy i recriwtio a chefnogi pobl anabl i ddod yn weithwyr cyflogedig ac i barhau yn eu swyddi. Hefyd, hoffem glywed a oes modd annog awdurdodau lleol eraill i ennill statws Arweinydd Hyderus o ran Anabledd, ac, os na, pa rwystrau sy’n eu hatal rhag cyflawni hyn.

Byddem yn ddiolchgar pe gallem gael eich ymateb cyn 2ail Rhagfyr 2024.

Yn gywir,

Jenny Rathbone AS

**Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.